

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Tomos Bryn Jones (Henllan) a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei fam, Mrs Ceinwen Jones. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Llinos Howatson (Llanefydd) a'r teulu, hithau hefyd wedi colli ei mam, Mrs Maggie Roberts. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod dros y teuluoedd mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Anfonwn ein cofion hefyd at y cleifion o'n plith sydd yn yr ysbyty – Morfudd Jones ac Elwy Owen (Llanefydd), Meirion Evans (Henllan) a William Ellis Roberts (Hiraethog). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a gweddiwn y bydd Duw yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Morfudd E. Jones (Llanefydd) sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig.

Taith Gerdded Hamddenol i'r Fro

Bwriadwn fynd i gerdded ger Llyn Crafnant, Trefriw, bore dydd Gwener, Rhagfyr 27ain ac, os bydd digon o ddiddordeb, i fynd am ginio cyn troi am adre. Os hoffech ymuno am ginio (neu fyrbryd), rhowch eich enw i Mair **erbyn Rhagfyr 16eg** fel y gallwn wneud trefniadau, os gwelwch yn dda. Mwy o fanylion y tro nesaf.

I ddod

- **PLYGAIN** yng Nghapel Llanefydd nos Fawrth, Rhagfyr 24ain am 7.00 yr hwyr.
- **PLYGAIN** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** – Cynhelir oedfa i'r fro yng Nghapel Saron bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.30.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (18^{fed}), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Rhagfyr 8^{fed} a'r 15^{fed}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi i'n hoedfaon ym Mro Aled heddiw, ac wrth i ni gyfarfod â'n gilydd gofynnwn am help yr Ysbryd Glân i'n galluogi i rannu ym mawl yr angylion a ddywedodd wrth y bugeiliaid: "Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl' oherwydd bod Achubwr wedi'i eni ym Methlehem.

Dwi'n siŵr nad oes angen i mi eich atgoffa ein bod o fewn ychydig ddyddiau i'r trydydd Etholiad Cyffredinol mewn pedair blynedd. Wedi'r holl anghytuno, y dadlau croch a'r ymdrechion i berswadio, bydd dyfarniad tyngedfennol yr etholwyr yn glir ar ddechrau Rhagfyr y 13eg. Cyn hynny, mwy o addewidion a phwyso bys at y gwrthwynebwyr sy'n debyg o ddod wrth i'r pleidiau gwleidyddol geisio rhoi pwysau arnom i ystyried – pwy allwn ni ymddiried ynddynt go iawn?

I Gristnogion, mae addewidion ac ymddiried yn rhan ganolog o'n ffydd ni. Duw sy'n gwneud addewidion yw'r Un yr ydym yn cael ein cyflwyno iddo yn y Beibl, ac mae'r Duw tragwyddol, sy'n Dad, Mab ac Ysbryd Glân yn ein galw fel pobl i berthynas o ymddiried ynddo, o Genesis i lyfr y Datguddiad. A phan fyddwn yn ystyried y rhannau cyfarwydd hynny o'r Beibl sy'n cyfeirio at enedigaeth ryfeddol Mab Duw dros yr wythnosau nesaf, peidiwn ag anghofio fod y cyfan yn dangos bod Duw yn cadw ei addewidion. Ym mhennod gyntaf Efengyl Luc, mae Sachareias, tad Ioan Fedyddiwr a Mair, mam Iesu yn derbyn negeseuon annisgwyl gan yr angel Gabriel. Yn y ddau achos, bydd meibion yn cael eu geni mewn amgylchiadau gwyrthiol – Elisabeth yn ei henaint i roi genedigaeth i Ioan Fedyddiwr, a Mair yn wryf i roi genedigaeth i Iesu wedi i'r Ysbryd Glân ei beichiogi. Ac mae pennod gyntaf Luc yn cofnodi ymateb Sachareias a Mair i eiriau'r angel. Yn Luc 1:50 gwelwn Mair yn molir Arglwydd am ei drugaredd 'bob amser' cyn iddi ddiweddu ei mawl gan ganmol y Duw sydd wedi cadw ei addewid i Abraham a'i ddisgynyddion trwy ddangos trugaredd a helpu ei was Israel. (Luc 1:54-55)

Er bod Sachareias wedi cael ychydig o drafferth i dderbyn y peth i ddechrau, wedi i Ioan gael ei eni mae yntau'n taro nodyn tebyg i Mair trwy glodfori'r Arglwydd sydd wedi trugarhau ac sydd wedi cofio ei addewid i Abraham i achub ei bobl. (Luc 1:72-74)

Iesu yw'r Achubwr, y Brenin a'r Gwas a addawodd yr Arglwydd i'w bobl i'w cymodi ag Ef ei hun. Ac wrth i ni ddathlu Ei enedigaeth, gofynnwn am gymorth Duw i ninnau barhau i ymddiried yn ein Ceidwad – yr 'un sy'n dod â'r cwbl mae Duw wedi'i addo yn wir!' (2 Corinthiaid 1:20 Beibl.net)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 8^{fed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd, a bydd Rhodri yn pregethu.
- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.

Mercher – 11^{eg}
lau – 12^{fed}

Sul nesaf – 15^{fed}

- **Oedfa Garolau** – Noson Nadoligaidd yng Nghapel Cefn Meiriadog am 6.00 a phaned a mins pei i ddilyn. Bydd y casgliad eleni yn cael ei gyfrannu tuag at dysteb 'Gobaith i Gymru' ac yn gyfle inni ddiolch am wasanaeth Arfon Jones a Gwenda Jenkins. Mae'r elusen yn dirwyn i ben ar ôl ugain mlynedd o weinidogaeth a chenhadaeth werthfawr ymhlith y Cymry Cymraeg. Prif brosiect yr elusen dros y blynyddoedd oedd paratoi a chyhoeddi cyfieithiad newydd Cymraeg o'r Beibl, sef beibl.net, ond bu'r elusen hefyd yn weithgar dros y blynyddoedd yn paratoi llawer o adnoddau Cristnogol i unigolion, eglwysi ac ysgolion. Y Cyngor Ysgolion Sul fydd bellach yn parhau y gwaith arbennig hwn.

lau – 19^{eg}
Gwener – 20^{fed}

- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Parti Nadolig C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Sul canlynol – 22^{ain}

- Ni fydd **Oedfa i'r Fro**.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 8^{fed}

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa Sul y Beibl yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Gwneir casgliad tuag at Gymdeithas y Beibl. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llanfair am 11.00.
- Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.

Mawrth – 10^{fed}
Mercher – 11^{eg}

- Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (8^{fed})**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 15^{fed}

- Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Llun – 16^{eg}

- 'Awn i Fethlehem' – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7.30.

Mercher – 18^{fed}

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (15^{fed})**, os gwelwch yn dda.

Sul canlynol – 22^{ain}

- Gwasanaethau Nadolig Llansannan: Yr oedolion yn y Granar am 10.00, a Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 gyda pharti i ddilyn yn y festri. Croeso i bawb!
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11.00 a chinio i ddilyn i bawb yn y Neuadd Goffa.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 8^{fed}

- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llanefydd am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 11.00.
- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (8^{fed})**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.

Gwener – 13^{eg}

Sul nesaf – 15^{fed}

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 11.00.

Sul canlynol – 22^{ain}

- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.30.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a Pharti Nadolig i ddilyn, a Gwasanaeth Carolau am 6.30.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a phaned a mins pei i ddilyn yn y Festri.
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Henllan am 2.00 a bydd y casgliad yn mynd tuag at elusen Dŵr Glân i bawb. Yna, ar ôl y gwasanaeth, bydd Parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn.

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 8^{fed}

- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn.

Sul nesaf – 15^{fed}

- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.

Sul canlynol – 22^{ain}

- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid yn Saron am 11.00 a bydd Siôn Corn yn galw heibio.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 2.00. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd lluniaeth ysgafn ac ymweliad gan Siôn Corn.